

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Beauty Within Medi Spa

Dyddiad arolygu: 1 Hydref 2018

Dyddiad cyhoeddi: 2 Ionawr 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	19
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	21

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGC) arolygiad dirybudd o Beauty Within Medi Spa ar 1 Hydref 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, roedd Beauty Within Medi Spa yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau laser.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd prosesau ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.

Rydym yn argymhell bod un o weithredwyr y laser/peiriant IPL yn dilyn yr hyfforddiant diogelu angenrheidiol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.
- Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd cofnodion cleifion wedi'u cwblhau i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai copïau caled o'r canllaw i gleifion fod ar gael yn rhwydd i ymwelwyr â'r gwasanaeth.
- Dylai pob gweithredwr gael hyfforddiant diogelu priodol.
- Dylai'r gwasanaeth drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn y toiled.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Beauty Within Medi Spa wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn 10 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AG.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 11 Ionawr 2001.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o saith aelod o staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr laser/peiriant IPL, dau weithredwr laser/peiriant IPL arall, tri aelod o staff nad ydynt yn ymwneud â'r laser yn y clinig, ac un derbynnnydd.

Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Ffoto-adywio
- Gwaredu gwythiennau edau fasgwlaidd
- Gwaredu gwallt.
- Lleihau llinellau ar y croen
- Acne a chreithiau acne
- Pigmentiad
- Lleihau croendyllau agored
- Tynhau'r croen
- Gwaredu tatŵau.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir a bod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth a'u hôl-ofal.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn breifat gan barchu eu hurddas.

Rydym yn argymhell bod y gwasanaeth yn sicrhau bod ei ganllaw i gleifion ar gael yn hawdd i gleifion a darpar gleifion, a'u bod yn gallu mynd â chopi gyda nhw.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron. Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, a nododd pob claf fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

Mae wedi bod yn broffesiynol ac wedi rhoi llawer o wybodaeth am driniaethau a fyddai'n fy helpu i'n benodol i gyflawni'r hyn rwyf ei eisiau

Dim ond dwy driniaeth rwyf wedi'u cael, roedd fy ymweliad cyntaf yn drylwyr iawn a chafodd popeth ei egluro'n glir i mi

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Rwyf wedi ei argymhell i deulu a ffrindiau. Rwyf wedi bod yn gwsmer bodlon iawn ers bron i flwyddyn.

Rwyf wedi cael gofal rhagorol yma bob amser. Caiff y cyfarpar ei lanhau'n rheolaidd cyn bob triniaeth rwyf wedi'i chael. Mae'r staff yn gyfeillgar a gwybodus iawn.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a holwyd a oedd unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod bob amser yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau ei hanes meddygol, cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Dywedwyd wrthym fod y drws i'r ystafell driniaeth wedi'i gloi yn ystod y driniaeth a bod cleifion yn cael llonydd i dynnu eu dillad os oedd angen. Roedd ardal newid ar y llawr cyntaf gyda loceri ar gyfer eiddo personol a gynau i'w gwisgo. Gwnaed hyn er mwyn cynnal urddas cleifion cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth. Roedd pob claf a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod ei apwyntiadau yn y clinig.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb gael eu clywed.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Nodwyd gennym fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth laser. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn ei helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddo a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn; dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael cyngor ôl-ofal ar ôl triniaethau. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

I gleifion rhwng 16 a 18 oed, bydd riant neu warcheidwad yn bresennol yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol. Mae gan y gwasanaeth hefyd ffurflenni cydsyniad y mae angen i riant neu warcheidwad eu llofnodi.

Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig fanwl a roddwyd i gleifion. Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei fod bob amser yn llofnodi ffurflen gydsyniad cyn cael unrhyw driniaeth newydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael mewn ffolder yn yr ardal aros, ynghyd â chopïau o adroddiadau blaenorol AGIC. Dim ond un copi o'r canllaw a oedd ar gael ac rydym yn argymhell bod copïau ychwanegol ar gael er mwyn i gleifion ac ymwelwyr fynd â chopi heb orfod gofyn. Gwelsom fod y canllaw yn cynnwys y wybodaeth hanfodol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd datganiad o ddiben ar gael, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ôl y cyfarwyddyd yn y rheoliadau.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd fod staff wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod copïau caled o'i ganllaw i gleifion ar gael i gleifion.

Cynllunio a darparu gofal

Cafodd pob claf apwyntiad ymgynghori cyn dechrau ar y driniaeth. Cafodd y rhain eu cofnodi ar ffurflenni papur a gafodd eu llofnodi a'u dyddio ac a oedd yn cynnwys asesiad o'r math o groen a thrafodaeth am risgiau a manteision triniaeth. Gwelsom enghreifftiau o ddogfennau gwybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r driniaeth.

Roedd y nodiadau'n dangos bod cleifion yn cael prawf clytiau er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a blew sydd ganddynt cyn iddynt gael triniaeth. Dywedodd pob claf a gwblhaodd

holiadur ei fod wedi cael prawf clytiau er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a blew sydd ganddo cyn iddo gael triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y gwasanaeth wedi'i leoli ar ddau lawr ond roedd yr ystafelloedd laser i gyd wedi'u lleoli ar y llawr daear ac roedd modd eu cyrraedd yn hawdd. Gallai cleifion mewn cadeiriau olwyn gael mynediad i'r gwasanaeth yn uniongyrchol o'r maes parcio yng nghefn y safle. Roedd y toiled i gleifion ar y llawr daear hefyd yn hygyrch i gleifion â phroblemau symudedd. Byddai cleifion nad oeddent yn gallu defnyddio'r cyfleusterau newid ar y llawr cyntaf yn cael preifatrwydd i newid yn yr ystafelloedd triniaeth cyn derbyn triniaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Dywedodd ychydig dros hanner y 21 o gleifion a gwblhaodd holiadur bod eu barn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig wedi'i cheisio, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal arolwg cleifion parhaus a gwelsom y ffurflenni yn yr ardal aros. Roedd cleifion hefyd yn cael eu gwahodd i gyflwyno adolygiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedwyd wrthym fod yr holl adborth yn cael ei adolygu a bod y canlyniadau'n cael eu cynnwys yn y canllaw i gleifion. Gwnaethom awgrymu bod y wybodaeth hon hefyd yn cael ei hychwanegu i'r wefan a'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Nodwyd gennym fod y peiriannau laser/IPL yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriannau a'u bod wedi cael hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.

Gwnaethom argymhell bod pob gweithredwr laser/peiriant IPL yn cael hyfforddiant diogelu priodol.

Roedd y gwasanaeth yn cynnal gweithgareddau rheolaidd er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac roedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig, y staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer y safle. Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) yn gyfredol, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelwyd tystysgrifau a oedd yn dangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd a'r gwiriadau diogelwch nwy ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau mewn perthynas â diogelwch tân hefyd. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cynnal profion tân rheolaidd. Mae hefyd yn cynnal hyfforddiant diogelwch tân rheolaidd ac yn cynnal driliau tân rheolaidd. Nodwyd gennym fod arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod profion blynyddol yn cael eu cynnal ar y diffoddwyr tân.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael ar gyfer y gwasanaeth a nodwyd gennym fod yr hyn a oedd ynddo o fewn eu dyddiadau terfyn a'u bod yn addas

at y diben. Gwelsom dystysgrif i ddangos bod un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Nodwyd gennym nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gyfer cael gwared ar gynhyrchion mislif yn y toiled ar y llawr cyntaf a gwnaethom argymhell bod bin cynhyrchion mislif yn cael eu rhoi ym mhob toiled.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y gwasanaeth i roi biniau cynhyrchion mislif yn y toiled ar y llawr cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr amgylchedd yn lân iawn neu'n eithaf glân.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig yn fanwl y trefniadau ar gyfer rheoli haint a gwelsom fod polisi rheoli haint ar waith. Roedd amserlen lanhau yn weithredol hefyd.

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff clinigol ac anghlinigol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 16 oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisiâu amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant ar waith ac roedd y ddau bolisi'n cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu lleol.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran cydsynio ac yn delio ag unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â diogelu. Gwnaethom nodi bod dau weithredwr laser/peiriant IPL wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant. Rydym yn argymhell bod y trydydd gweithredwr laser/peiriant IPL yn cael yr holl hyfforddiant diogelu perthnasol. Rydym yn argymhell hefyd fod y derbynnydd a'r swyddog cymorth cyntaf yn cael hyfforddiant diogelu, gan eu bod yn dod i gysylltiad â chleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob gweithredwr laser ac IPL wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth fod pob peiriant laser wedi'i galibradu¹ a'i wasanaethu'n rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod protocol triniaeth ar waith ar gyfer pob peiriant laser a'i fod yn cael ei oruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract yn ei le gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a bod rheolau lleol² a oedd yn manylu ar sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau hyn wedi'u hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a gwelsom eu bod wedi cael eu llofnodi gan y rhai a oedd yn gweithredu'r peiriannau laser hefyd, sy'n dangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn a'u bod wedi cytuno i'w dilyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom y dystysgrif i ddangos bod pob gweithredwr laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth³.

¹ Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

² Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

³ Anelir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth at weithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi. Nodwyd gennym fod hollt ym mraich un o'r sbectolau a bod rhywfaint o grafiadau ar un arall. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn ymwybodol o'r difrod ac yn fodlon. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried cael gwared ar y ddwy set o sbectolau a chael rhai newydd yn eu lle. Roedd gan y gwasanaeth hefyd sbectolau ychwanegol rhag ofn y byddai eu hangen ar hebryngwyr.

Nodwyd gennym y byddai golau yn cynnau y tu allan i bob ystafell driniaeth pan oedd y laser yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau yn cael eu cadw dan glo bob amser. Pan nad oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio, roedd yr allweddi gweithredu'n cael eu cadw mewn sêff allweddi.

Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth yn ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol a nodwyd gennym fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddarau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod gan y gwasanaeth systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal ac yn asesu risgiau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch; mae hefyd yn dadansoddi digwyddiadau niweidiol ac yn adolygu dangosyddion perfformiad.

Rheoli cofnodion

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel gyda'r holl gofnodion papur yn cael eu storio mewn cabinet y gellid ei gloi. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth bod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel. Gwnaethom nodi bod y gofrestr triniaethau ar gyfer pob peiriant yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae Beauty Within Medi Spa yn eiddo i'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig ac yn cael ei redeg ganddynt.

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau, a thystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith yn y gwasanaeth ond rydym yn argymhell ei fod yn sicrhau bod y cwynion a'r ymatebion yn cael eu cadw gyda'i gilydd er hwylustod.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Beauty Within Medi Spa yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig ac yn cael ei redeg ganddi. Mae hi hefyd yn weithredwr laser/peiriant IPL. Ceir saith aelod o staff, gan gynnwys dau weithredwr laser/peiriant IPL. Roedd nifer o bolisiau ar waith yn y gwasanaeth a nodwyd gennym fod dyddiad a rhif y fersiwn wedi'u nodi arnynt. Roedd rhestr wirio hefyd ar flaen y ffeil roedd y staff wedi'i llofnodi, er mwyn dangos eu bod wedi darllen a deal y polisiau.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd briodol a chyfredol a oedd yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd manylion y weithdrefn cwynion wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben yn y canllaw i gleifion.

Roedd system ar waith i gofnodi unrhyw gwynion a phryderon ffurfiol, ond roedd y cwynion a'r canlyniadau'n cael eu ffeilio ar wahân, er enghraifft, roedd cynwys ysgrifenedig wedi'i chadw mewn ffeil ond roedd yr ymateb wedi'i ffeilio'n

electronig. Rydym yn argymhell bod y rhain yn cael eu ffeilio gyda'i gilydd er hwylustod. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cadw llyfr nodiau yn y dderbynfa er mwyn cofnodi unrhyw sylwadau ac adborth anffurfiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob cwyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad yn cael eu ffeilio gyda'i gilydd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y defnyddwyr awdurdodedig a oedd yn gweithredu'r peiriannau laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser drwy ganllawiau'r gwneuthurwr.

Nodwyd gennym hefyd fod rhaglen hyfforddi ar waith i bob aelod o'r staff, a'i bod yn cael ei llofnodi ar ôl i bob cwrs gael ei gwblhau.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁴ ar gyfer y rheolwr cofrestredig a'r ddau weithredwr laser/peiriant IPL arall. Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig yn gofyn am dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a geir daon ysgrifenedig a llafar wrth recriwtio aelodau newydd o staff.

Gwelsom dystiolaeth fod rhaglen o arfarniadau staff ffurfiol ar waith, a gaiff eu dogfennu.

⁴ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Beauty Within Medi Spa

Dyddiad arolygu: 1 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod copïau caled o'i ganllaw i gleifion ar gael i gleifion.	Cyfathrebu effeithiol Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 7	Yn ogystal â'r copi caled o'r canllaw i gleifion a gyflwynir yn y dderbynfa eisoes i gleifion ei ddarllen, mae nifer o gopïau ychwanegol o'r canllaw i gleifion wedi'u hargraffu ac wedi'u rhoi yn y dderbynfa.	Neil Moaksom	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Y gwasanaeth i roi biniau cynhyrchion mislif yn y toiled ar y llawr cyntaf.	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch Canllawiau HSE – Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith	Mae bin cynhyrchion mislif addas wedi'i roi yn y toiled ar y llawr cyntaf.	Neil Moaksom	Cwblhawyd
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob gweithredwr laser ac IPL wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant.	Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 16 (1) (a)	Rydym wrthi'n hyfforddi ar hyn o bryd.	Neil Moaksom	Cwblhawyd erbyn 5/12/2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob cwyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad yn cael eu ffeilio gyda'i gilydd.	Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau	Mae'r gŵyn, y camau a gymerir a'r canlyniad bellach yn cael eu ffeilio gyda'i gilydd.	Neil Moaksom	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 24			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): NEIL MOAKSOM

Teitl swydd: RHEOLWR COFRESTREDIG

Dyddiad: 15/11/2018